# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2025

Amser: 09.30 - 12.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15637

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Cefin Campbell AS<br>Russell George AS<br>Vaughan Gething AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol<br>Sarah Murphy AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Sioned Rees, Llywodraeth Cymru<br>Alex Slade, Llywodraeth Cymru<br>Hywel Jones, Llywodraeth Cymru<br>Rhian Edwards, Medr |

| | |
|---|---|
| | James Owen, Medr<br><br>Geoff Hicks, Medr |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Leah Whitty (Ail Glerc)<br><br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br><br>Thomas Morris (Ymchwilydd)<br><br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Lywodraeth Cymru.

2.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu'r canlynol:

- y dyddiad pan fydd y Datganiad Ansawdd Integredig ar Iechyd Plant ar gael.

- rhestr o ymyriadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan amlygu y rhai ble y mae angen newid er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r perfformiad mewn ffordd gynaliadwy, a'r meysydd y mae angen buddsoddiad newydd ynddynt.

- ffigurau i ddangos y cynnydd a wnaed gyda'r rhaglen Cynllun Gwên yn y wardiau mwyaf difreintiedig.

- y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Cenedlaethol a sefydlwyd i oruchwylio'r cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2025 i 2027.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i anfon y cwestiynau a oedd heb eu gofyn i gael ymateb ysgrifenedig iddynt.

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - sesiwn dystiolaeth

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Medr.

3.2 Cytunodd Medr i roi'r dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r gwaith y mae wedi'i wneud ar dueddiadau o ran cofrestru ynghyd â, phan fônt ar gael, canfyddiadau'r ymgynghoriad ar y rhaglen brentisiaeth arfaethedig i bob oedran.

## 4 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

### 4.4 Gwybodaeth gan Randdeiliaid

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu ateb i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynglŷn â'r llythyr hwn.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 - trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.